

CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWDYD DROS 'ZOOM', NOS LUN 26ain o EBRILL, 2021

PRESENNOL

Cyng. Eifion Williams (Cadeirydd), Cyng. John Owen, Cyng. Nerys Dobson, Cyng. Anwen Jones, Cyng. Arwel L.Jones, Delyth Algieri (clerc).

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyngor cymuned i'r cyfarfod dros 'Zoom'.

YMDDIHEURIADAU

Cyng. Hefin Martin, Cyng. Dylan Jones, Cyng. Alun Morris, Cyng Austin Roberts

CADARNHAU'R COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 29ain o Mawrth, 2021.

CYNLLUNIO

1) Cais cynllunio cyfeirnod 0/48227 - Mr Barton, Maenan Hall, Llanrwst Road, Maenan, Llanrwst, LL26 0UL
Dymchwel garej bresennol i'r chwith i greu estyniad i'r fynedfa ganolog yr un hyd â'r estyniad i'r dwyrain gyda thair ffenestr i gyfateb tua'r de, a ffenestri/drysau cyfatebol i'r Gogledd. Ffenestri to i'w gosod ar yr ail lawr o'r estyniad i gefn yr eiddo .

Trafodwyd y cais cynllunio a penderfynwyd a phasiwyd fod dim gwrthwynebiad i'r cais.

2) Cais cynllunio cyfeirnod 0/48376 -Mrs Megan Jones, Caer Faenan, Maenan, Llanrwst LL26 0YE
Dymchwel byngalo sy'n bodoli ar hyn o bryd, codi annedd newydd a gwneud gwaith cysylltiedig.

Trafodwyd y cais a phasiwyd fod dim gwrthwynebiad i'r cais.

LLINELLAU MELYN

Cadarnhawyd fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi paentio y llinellau melyn ar y ffordd gyferbyn ar Ysgol Llanddoged.

ARWYDD 'DIM PARCIO DROS NOS' AR GYFER Y MAES PARCIO CEGIN WEN

Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi cysylltu gyda y cwmni o Gonwy 'Conwy Signs' i greu yr arwydd "Dim parcio dros y nos' ar gyfer y maes parcio Gegin Wen am y gost o £45. Bydd Cyng. Arwel Lloyd Jones yn trefnu gyda perchennog y cwmni l osod yr arwydd wrth fynedfa y maes parcio.

BWRDD PICNIC CAE CHWARAE MAENAN

Y clerc yn aros am brisiau gan gwahanol cwmnïau ar gyfer cael bwrdd picnic i gae Chwarae Maenan.

CYNNAL A CHADW

- 1) Tyllau ar y ffordd wrth Wigfa Maenan.
- 2) Twll yn ffordd Allt Goch, Llanddoged.
- 3) Tyllau yn y ffordd ar y Ffordd ar yr allt ar ol pasio Bryn Saith, Llanddoged.
- 4) Tyllau y ffordd rhwng Fron Francis a Glasfryn, Llanddoged./

CYLLID

Arwyddwyd (Cadeirydd) Dyddiad